

CYMHORTHDAL AMDDIFADEDD DISGYBLION

Fel amod o dderbyn **Cymhorthdal Amddifadedd Disgyblion (CDA)** gan Lywodraeth Cymru i leihau Amddifadedd mae'n ofynnol ein bod yn cyhoeddi manylion y gwariant. Er diogelu cyfrinachedd y garfan o blant sy'n derbyn cinio rhad ac yn elwa o'r cymhorthdal hwn, ni allwn ddatgelu'r manylion na'r niferoedd yn llawn.

Cyfanswm y nifer y disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ym mis Medi 2014 yw 340 Cyfartaledd cyfran y disgyblion sy'n derbyn cinio rhad yn yr ysgol dros y dair mlynedd diwethaf hyd eleni yw 23.1%

Yn ôl y nifer o blant sy'n derbyn **cinio rhad (CRh)** yn yr ysgol derbyniwyd cyfran o £67,014 o gymhorthdal CDA am y flwyddyn ariannol Ebrill 2014 – Mawrth 2015.

Mae'r ysgol wedi datblygu ac yn gweithredu'r canlynol er mwyn cefnogi disgyblion sy'n wynebu sialensau tlodi ac amddifadedd:

- Secondiad mewnol i aelod o staff i ddatblygu gweithdrefnau gwahanol er mwyn cydweithio a chysylltu â theuluoedd CRh yn fwy effeithiol
- Gweithio tuag at y nod o gael cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Teuluoedd i'r ysgol
- Dadansoddi a gwella ymrwymiad teuluoedd CRh â'r ysgol, datblygu rôl swyddog cyswllt
- Cynnal a datblygu ein grŵp magwraeth 'Cwtsh'
- Prynu adnoddau ar gyfer cynnal y grŵp Cwtsh – bwyd ac adnoddau ychwanegol
- Cyflogi aelod o staff trwy asiantaeth ar gyfer darparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion CRh
- Costau aelodau o'r UDR i fynychu cynadleddau, hyfforddiant a chyrsiau datblygiad proffesiynol perthnasol i ddatblygu ac ymestyn gweithdrefnau i oresgyn effeithiau tlodi ac amddifadedd
- Gwella ymrwymiad disgyblion trwy gyflwyno sgiliau cyfrifiadura a rhaglennu
- Prynu adnoddau technegol megis I pads a kindles er mwyn denu ac ymrwymo disgyblion CRh tuag at ddysgu, datblygu a gwella eu sgiliau
- Cynnig cymorthdaliadau i deuluoedd CRh tuag at gostau ymweliadau a chyrsiau preswyl

O ganlyniad i dderbyn grant CDA yn ystod y blynyddoedd diwethaf gallwn gadarnhau bod effaith gadarnhaol i'r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno eisioes drwy'r ysgol. Rhaid sylweddoli fodd bynnag, y bydd yn cymryd amser i rai o'r gweithdrefnau yma i ymsefydlu yn ein cymuned. Rydyn ni'n hyderus y bydd y newidiadau hyn yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion a'r teuluoedd sy'n wynebu sialensau tlodi ac amddifadedd.

Mae cynlluniau gwariant y cymorthdaliadau CDA wedi eu cefnogi a'u cymeradwyo gan gyngor a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Maent yn cael eu monitro gan yr Awdurdod Lleol ac fe fydd Corff Llywodraethol yr ysgol yn craffu ar ddatblygiad y gwariant yn rheolaidd.